OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2005 Rhif 363 (Cy.30)

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Hylendid Bwyd yn Gyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2005

Wedi'u gwneud - -	*22 Chwefror 2005*
Yn dod i rym - -	*1 Mawrth 2005*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ei fod wedi'i ddynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf Cymunedau Ewrop 1972(**2**) o ran mesurau sy'n gysylltiedig â bwyd, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan yr adran honno, yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Hylendid Bwyd yn Gyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2005, maent yn gymwys o ran Cymru'n unig a deuant i rym ar 1 Mawrth 2005.

Diwygio Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Hylendid Bwyd yn Gyffredinol) 1995

2.—(1) Diwygir Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Hylendid Bwyd yn Gyffredinol 1995(**3**) yn unol â pharagraff (2) i'r graddau y maent yn gynmwys o ran Cymru.

(2) Ym mharagraff (1) o reoliad 2 (dehongli), yn lle'r diffiniad o "list of acceptable previous cargoes for liquid oils or fats" rhodder y diffiniad canlynol -

> ""list of acceptable previous cargoes for liquid oils or fats" means the list set out in the Annex to Commission Directive 96/3/EC granting a derogation from certain provisions of Council Directive 93/43/EEC on the hygiene of foodstuffs as regards the transport of bulk liquid oils and fats by sea(**4**) as amended by Commission Directive 2004/4/EC amending Directive 96/3/EC granting a derogation from certain provisions of Council Directive 93/43/EEC on the hygiene of foodstuffs as regards the transport of bulk liquid oils and fats by sea(**5**);".

(**1**) O.S. 2003/2901.
(**2**) 1972 p. 68.
(**3**) O.S.1995/1763, a ddiwygiwyd gan O.S. 1997/2537; y mae offerynnau diwygio eraill i'w cael, ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.
(**4**) OJ Rhif L21, 27.1.96, t.42.
(**5**) OJ Rhif .L15, 22.1.2004, t.25.